**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

# DYLETSWYDD PARTNERIAETH GYMDEITHASOL - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025/26

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **3 – 4** |
| **Fframwaith Deddfwriaethol** | **5** |
| **Y Cydbwyllgor Ymgynghori (Cylch Gorchwyl/Aelodau/Ystyriaethau a Chanlyniadau)** | **5 - 20** |
| **Cyfarfodydd y tu allan i'r Cydbwyllgor Ymgynghori** | **19** |
| **Edrych i'r Dyfodol** | **20** |

## Rhagair



**Y Cynghorydd Maureen Webber BEM**

**Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor**

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Ymgynghori, corff sy'n parhau i chwarae rhan hanfodol wrth atgyfnerthu deialog adeiladol rhwng y Cyngor a'n partneriaid o undebau llafur cydnabyddedig. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cydbwyllgor wedi dangos ei fod yn fforwm gwerth chweil sydd wedi'i wreiddio mewn dull agored, parch, ac ymrwymiad cyffredin i gefnogi ein gweithlu a'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Mae’r flwyddyn yma wedi cynnig cyfleoedd pwysig i gydweithio. Mae Aelodau Etholedig a chynrychiolwyr undebau llafur wedi bod yn ymgysylltu'n agos drwy gydol proses pennu cyllideb y Cyngor, gan sicrhau bod safbwyntiau staff yn cael eu hystyried yn llawn wrth i'r Cyngor wynebu pwysau ariannol parhaus a newidiadau sefydliadol. Mae trafodaethau'r Cydbwyllgor wedi helpu i lunio dull mwy gwybodus a thryloyw o wneud penderfyniadau, gan adlewyrchu'r cyfrifoldeb rydyn ni'n ei rannu o ran diogelu lles ein gweithwyr a chynaliadwyedd ein gwasanaethau.

Mae'r Cydbwyllgor hefyd wedi mynnu'r wybodaeth ddiweddaraf am broses ailstrwythuro'r uwch reolwyr. Llwyddodd hyn i sicrhau bod modd craffu'n adeiladol ar y newid a rhoi cyfle i gydweithwyr o'r undebau llafur godi cwestiynau a dweud eu dweud. Mae'r ddeialog yma wedi bod yn hanfodol i gefnogi proses drosglwyddo ddidrafferth a chynnal hyder unigolion ym mhob rhan o'r sefydliad.

Eleni, rydyn ni wedi manteisio ar y cyfle i drin a thrafod data mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch, sydd wedi rhoi trosolwg i'r Cydbwyllgor o ddata, tueddiadau a mesurau cydymffurfio allweddol. Mae hyn yn ei dro wedi atgyfnerthu ein hymrwymiad cyffredin i ddarparu amgylchedd gwaith diogel a chefnogol i holl weithwyr y Cyngor.

Maes gwaith arwyddocaol arall eleni oedd Asesiad Cyflawniad Panel Adolygu gan Gymheiriaid statudol y Cyngor. Hoffwn ddiolch unwaith eto i'n cydweithwyr o'r undebau llafur a chwaraeodd ran bwysig yn y broses yma, gan gyfrannu safbwyntiau gwerthfawr ynglŷn â'r rheng flaen i'r panel adolygu. Mae eu cyfranogiad yn adlewyrchu

pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth wrth lunio asesiad gonest, cytbwys a blaengar o gyflawniad y Cyngor.

Wrth i ni edrych i'r dyfodol, mae'r Cydbwyllgor yn parhau i fod wedi'i ymrwymo i feithrin cysylltiadau diwydiannol cryf, hyrwyddo tryloywder, a sicrhau bod lleisiau ein gweithlu yn dal ati i lywio cyfeiriad strategol y Cyngor. Mae ein perthynas waith gadarnhaol yn nodi bod y Cyngor yn cydnabod gwerth gwaith partneriaeth cymdeithasol ac yn awyddus i'r hyrwyddo ym mhopeth a wnawn, ac mae hyn yn amlwg o edrych ar Rybuddion o Gynigion diweddar y Cyngor, sydd wedi cyfeirio materion at y Cydbwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys ein hymateb cadarnhaol i'r ddeddfwriaeth newydd o ran Hawliau Gweithwyr. Hoffwn ddiolch i bob Aelod a'n cydweithiwr o'r undebau llafur am eu hymatebion adeiladol, eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb drwy gydol y flwyddyn.

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru lunio adroddiad blynyddol i amlinellu ein cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.

**Y Cynghorydd M Webber**

**Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor**

## CYFLAWNI GOFYNION STATUDOL Y DDEDDF PARTNERIAETH GYMDEITHASOL A CHAFFAEL CYHOEDDUS

Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith i wella lles pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus ar ffurf gwaith partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a dulliau caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol. Nod y Ddeddf yw ategu deddfwriaeth arall, gan gynnwys y Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WFGA 2015).

Wrth gyflawni gwaith datblygu cynaliadwy, mae Deddf 2023 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor gymryd pob cam rhesymol i geisio consensws neu gyfaddawd gyda'i undebau llafur cydnabyddedig wrth bennu ei amcanion o ran lles (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae Adran 16(2) o'r Ddeddf yn nodi nifer o ofynion penodol sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd, y mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â nhw wrth geisio consensws neu gyfaddawd. Bwriad y gofynion yw sicrhau bod undebau llafur yn cael eu cynnwys mewn modd llawn a phriodol yn y broses pan fydd corff cyhoeddus yn pennu ei amcanion lles, neu wrth wneud penderfyniadau strategol. Mae'n nodi: Er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawd, rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys ei undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill o'i staff yn y trefniadau o ran pennu amcanion neu wneud penderfyniadau, drwy (yn benodol):-

(a) ymgynghori â nhw yng nghyfnod ffurfiannol y broses,

(b) eu cynnwys mewn ffordd arall drwy gydol y broses drwy:

(i) darparu digon o wybodaeth i'w galluogi i ystyried yr hyn sy'n cael ei gynnig mewn modd priodol,

(ii) darparu digon o amser i’w galluogi i ystyried yr hyn sy'n cael ei gynnig yn fanwl a llunio ymateb.

## CYLCH GORCHWYL Y CYDBWYLLGOR YMGYNGHORI

Er mwyn cyflawni'r gofynion statudol yma, penderfynodd y Cyngor ailgynnull ei Gydbwyllgor Ymgynghori yn 2023. Nod hyn oedd sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ymgysylltu â chydweithwyr yn yr Undebau Llafur mewn perthynas â pholisïau allweddol, sut i lunio cyllideb gadarn a chytbwys a newidiadau allweddol i wasanaethau.

Rôl y Cydbwyllgor Ymgynghori yw cyflawni'r swyddogaethau canlynol ar ran y Cyngor:

(a) Bod yn gylch trafod sy'n rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ac undebau llafur rannu'u barn ar faterion sy'n effeithio ar weithwyr.

(b) Trafod materion penodol sy'n effeithio ar weithwyr ac sydd wedi'i gyfeirio at y Cydbwyllgor gan Aelodau'r Cyngor, yr undebau llafur a swyddogion.

Nod hyn yw ategu'r ddeialog barhaus rhwng Adnoddau Dynol, uwch swyddogion ac undebau llafur, yn rhan o weithgarwch darparu gwasanaethau dyddiol ym mhob rhan o'r awdurdod lleol.

## AELODAU'R CYDBWYLLGOR YMGYNGHORI

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol:** Maureen Webber BEM (Cadeirydd)

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol:** Andrew Morgan OBE

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol:** Ann Crimmings

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol:** Rhys Lewis

**Swyddogion yr Undebau Llafur**

Unison - M. Edwards

GMB - Mr C Jones, Mr G Morgans; L Chapman

Unite - M Gilroy

**Undebau Llafur Addysg - Mynychwyr gwadd**

M Thomas – NEU

S Evans / A Webb – ASCL

M Davies – UCAC

M Cleverly – NASUWT

E Williams / L Doel - NAHT

## CYFARFODYDD Y CYDBWYLLGOR YMGYNGHORI

Mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor Ymgynghori gyfarfod ddwywaith y flwyddyn, a chyda chaniatâd y Cadeirydd, gellir trefnu cyfarfodydd arbennig ychwanegol er mwyn trafod unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn ôl yr angen. Er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd a thryloywder y trafodaethau ymhellach, cynhelir cyfarfodydd y Cydbwyllgor Ymgynghori yn gyhoeddus ac mae recordiadau o'r cyfarfodydd ar gael ar wefan y Cyngor. Mae dolen i'r Cyfarfodydd a'r recordiadau i'w gweld yma.

Yn ystod blwyddyn ddiwethaf y Cyngor, fe wnaeth y Cydbwyllgor Ymgynghori gynnull i ystyried:

- Ymgynghori ar y Gyllideb - Cam 1 a 2

- Asesiad Cyflawniad y Panel Adolygu gan Gymheiriaid
- Ailstrwythuro Uwch Reolwyr y Cyngor
- Data Iechyd a Diogelwch
- Ymgysylltu â Chraffu
- Rhaglen Waith y Cydbwyllgor ar gyfer y Dyfodol

I gefnogi'r meysydd yma, mae Uwch Reolwyr y Cyngor wedi ceisio sicrhau bod undebau llafur yn cael gwybodaeth briodol i lywio eu cyfranogiad mewn unrhyw brosesau ymgynghori ffurfiol, a hynny er mwyn eu galluogi i gynrychioli buddiannau eu haelodau yn effeithiol yn ystod y broses gwneud penderfyniadau.

**<u>TRAFODAETHAU A GYNHALIWYD GYDAG AELODAU O UNDEBAU LLAFUR MEWN PERTHYNAS Â'R EITEMAU AGENDA UCHOD</u>**

***18 Tachwedd 2025***

**YMGYNGHORI AR GYLLIDEB 2026-27 (CAM 1)**

Cafodd Aelodau'r Cydbwyllgor Ymgynghori gyfle i ymateb yn ffurfiol i gam cyntaf yr Ymgynghoriad ar Gyllideb 2026/27 y Cyngor. Cafodd adborth y Cydbwyllgor ei ymgorffori mewn adroddiad Ymgynghori ar y Gyllideb, ochr yn ochr â'r holl adborth arall a dderbyniwyd gan randdeiliaid, i'w ystyried gan y Cabinet yn rhan o waith llunio'r Strategaeth Gyllideb Refeniw ddrafft ar gyfer 2026/27.

Trafododd yr Aelodau sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor, gan nodi y byddai'r cynnydd o ddau y cant a ragwelir ar hyn o bryd i setliad llywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27 yn cyflwyno heriau sylweddol i'r Cyngor yng nghyd-destun mynd i'r afael â'r bwlch cyllidebol a ragwelir o £22 miliwn ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn ogystal â hynny, nododd yr Aelodau y byddai sefyllfa bresennol y setliad yn cyflwyno heriau sylweddol i bob awdurdod lleol ledled Cymru a phwysleision nhw'r angen i'r Cyngor lobïo Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r achos i sicrhau dyraniad cyllid gwell, gan nodi y byddai unrhyw welliant ar y ddau y cant arfaethedig yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i gyllidebau awdurdodau lleol. Yn ystod y cyfarfod, rhoddodd y Cadeirydd sicrwydd i'r Aelodau fod lobïo yn mynd rhagddo, gydag Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn chwarae rhan allweddol yn y broses yn rhinwedd ei swydd yn Arweinydd CLILC.

Tynnodd yr Aelodau sylw at bwysigrwydd strategaeth y gyllideb i ddiogelu staff, sicrhau bod cyfrifoldebau statudol yn cael eu cyflawni a bod y rhai mwyaf agored i niwed o fewn ein cymunedau yn cael eu diogelu.

Nododd Aelod y pwysau sydd eisoes ar gyllidebau aelwydydd, gan gydnabod y gallai penderfyniadau anodd fod yn anochel i'r Cyngor os na fyddai lefel y setliad llywodraeth leol presennol gan Lywodraeth Cymru yn gwella.

**Ysgolion**

Roedd yr Aelodau'n cytuno â dull y Cyngor o ystyried ysgolion yn faes blaenoriaeth o fewn cyllideb y Cyngor dros nifer o flynyddoedd, gan gydnabod bod ysgolion wedi wynebu pwysau o flwyddyn i flwyddyn, yn enwedig o ran staffio, costau cyflenwi ac anghenion dysgu ychwanegol. Roedd Aelod o'r farn bod blaenoriaethu cyllideb yr ysgolion wedi galluogi'r sector i gynnal y ddarpariaeth, a nododd y bydd blaenoriaethu parhaus yn gynyddol heriol i'w gyflawni yng ngoleuni'r rhagolygon ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

Nododd Aelod arall yr heriau o ran llwyth gwaith athrawon, nifer cynyddol y disgyblion ym mhob dosbarth, pryderon o ran lles, ac absenoldeb salwch hirdymor a achosir yn rhannol gan bwysau gwaith cynyddol.

O ystyried maint y bwlch cyllidebol a ragwelir gan y Cyngor, roedd yr Aelodau o'r farn y gallai fod angen rhannu lefel yr arbedion cyllidebol sydd eu hangen yn fwy cyfartal ar draws pob maes gwasanaeth. Pwysleisiodd Aelod arall fod toriadau i addysg yn effeithio ar ddeilliannau plant yn y pen draw, ac y dylid ymdrin â nhw'n ofalus a'u llywio ar sail asesiad o'r goblygiadau ar staff a disgyblion.

**Gofal Cymdeithasol**

Tynnodd yr Aelodau sylw at bwysigrwydd gofal cymdeithasol i Oedolion a Phlant, a'r rôl hanfodol y mae'r gwasanaethau yma'n chwarae wrth gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed drwy gydol eu hoes.

Nododd yr Aelodau'r pwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu'r holl wasanaethau i oedolion a phlant, ac roedden nhw o'r farn bod gan y Cyngor hanes o flaenoriaethu gofal cymdeithasol, gyda chynnydd sylweddol yn y gyllideb yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Roedd yr Aelodau o blaid cynnal gofal cymdeithasol yn fater blaenoriaeth uchel ar gyfer buddsoddiad parhaus a nodwyd y gallai rhoi arbedion pellach ar waith ym maes gofal cymdeithasol fod yn anochel oherwydd y pwysau ariannol ehangach sy'n wynebu'r Cyngor. Nododd yr Aelodau hefyd fod staff gofal cymdeithasol eisoes yn gweithredu mewn amgylchedd heriol, a gallai arbedion pellach arwain at ragor o absenoldebau oherwydd salwch ac anawsterau o ran recriwtio a chadw staff.

**Ffioedd a thaliadau**

Trafododd yr Aelodau ddull y Cyngor o ymdrin â ffioedd a thaliadau, ac roedden nhw yn erbyn defnyddio dull cyffredinol o adolygu ffioedd a thaliadau. Awgrymon nhw y dylid rhoi dull wedi'i dargedu ar waith.

Roedd y nifer helaeth o'r Aelodau o blaid cynyddu dirwyon a chosbau, yn enwedig am dipio anghyfreithlon, uwchlaw lefelau chwyddiant er mwyn annog troseddwyr posibl i ailfeddwl.

Doedd yr Aelodau ddim o blaid cynyddu prisiau prydau ysgol, gan awgrymu y byddai hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar deuluoedd, yn enwedig y rhai sydd â mwy nag un plentyn o oedran ysgol uwchradd.

Roedd yr Aelodau o'r farn y dylid ystyried cynnyddu ffioedd parcio yn ofalus er mwyn sicrhau fforddiadwyedd i drigolion a staff, ac i gystadlu â gweithredwyr parcio preifat.

Pwysleisiodd yr Aelodau fod angen i ffioedd a thaliadau aros yn fforddiadwy ac yn gystadleuol, yn enwedig lle mae dewisiadau eraill yn y sector preifat ar waith, er enghraifft, darparwyr gwasanaethau hamdden.

**Lefelau Gwasanaeth**

Trafododd yr Aelodau'r rhaglen waith barhaus sy'n mynd rhagddi i ailstrwythuro gwasanaethau ac opsiynau eraill i arbed arian, megis lleihau oriau gweithredu rhai gwasanaethau penodol ar adegau tawelach ac ystyried y defnydd o adeiladau'r Cyngor ymhellach. Nododd yr Aelodau y gallai gostyngiadau pellach i oriau agor beryglu gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau craidd yn effeithiol, gan ddweud bod rhai gwasanaethau eisoes wedi addasu eu horiau ac yn darparu llai.

Nododd Aelod, er bod digideiddio gwasanaethau yn helpu i foderneiddio darpariaeth gwasanaethau, bod yn rhaid i ddarpariaeth gwasanaethau amgen i drigolion na allant gael mynediad at wasanaethau'n ddigidol barhau i fod ar gael yn hawdd i'r cyhoedd. Tynnodd Aelod arall sylw at bwysigrwydd cynnal y gallu i drigolion gysylltu â'r Cyngor dros y ffôn, o ystyried y cynnydd mewn sgamiau a'r angen i fod yn ofalus ynghylch galwadau o rifau anhysbys.

**Treth y Cyngor**

Trafododd yr Aelodau’r ystyriaethau pwysig y mae angen eu hystyried o ran lefelau Treth Cyngor a nodwyd bod pwysau costau byw yn parhau i gael effaith andwyol ar gyllidebau aelwydydd ac nad yw'r cynnydd mewn cyflogau wedi cyd-fynd â chwyddiant yn gyffredinol. Nododd yr Aelodau y byddai cynnydd o rhwng 3 a 5 y cant yn Nhreth y Cyngor, fel y cyfeiriwyd ato yn y cyflwyniad, yn arwain at gostau ychwanegol i deuluoedd sydd eisoes dan bwysau, a nodwyd hefyd fod angen ystyried cynyddu lefel Treth y Cyngor er mwyn helpu i amddiffyn gwasanaethau hanfodol y Cyngor a diogelu swyddi.

Nododd Aelod adborth y cyhoedd ynghylch gostyngiadau i wasanaethau ar yr un pryd â chynnydd yn Nhreth y Cyngor a phwysleisiodd yr angen am negeseuon clir ynghylch yr hyn y mae'r dreth yn ei ariannu. Cydnabu'r Cadeirydd y pwynt yma a dywedodd fod Treth y Cyngor ar hyn o bryd yn ariannu tua 21% o gyllideb y Cyngor, gyda'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau i ddarparu negeseuon clir i drigolion ynghylch yr ystod o wasanaethau a ddarperir a sut maen nhw'n cael eu hariannu.

Ychwanegodd yr Aelodau fod rhywfaint o gynnydd yn Nhreth y Cyngor yn anochel er mwyn amddiffyn gwasanaethau hanfodol y Cyngor a, thrwy hynny, ein trigolion. Nodon nhw y dylai'r cynnydd fod ar y lefel isaf bosibl fel bod modd pennu cyllideb gytbwys.

**Arbedion Effeithlonrwydd**

Aeth yr Aelodau ati i gydnabod yr arbedion helaeth mae'r Cyngor eisoes wedi'u cyflawni dros y 10 mlynedd diwethaf, gan nodi bod cyfleoedd i wneud arbedion effeithlonrwydd pellach yn dod yn fwyfwy anodd i'w canfod heb effeithio ar ansawdd gwasanaethau a lles staff.

Cytunodd yr Aelodau y dylai gwasanaethau barhau i chwilio am gyfleoedd i wneud arbedion, gan nodi pwysigrwydd dull realistig o ystyried maint yr arbedion sydd wedi'u cyflawni hyd yma.

**Cronfeydd wrth gefn y Cyngor**

Roedd yr Aelodau o blaid dull doeth a chyfrifol y Cyngor o reoli ei gronfeydd wrth gefn, a nodon nhw eu bod yn sicrhau cydnerthedd ariannol wrth ymateb i argyfyngau fel y llifogydd diweddar.

Cafodd yr Aelodau sicrwydd bod lefelau cronfeydd wrth gefn y Cyngor, a'r defnydd ohonyn nhw, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cael eu hadrodd yn gyhoeddus i Gynghorwyr etholedig. Maen nhw hefyd yn ffurfio rhan allweddol o drefniadau rheoli ariannol y Cyngor.

**Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor**

Ni chafodd unrhyw wrthwynebiadau eu codi mewn perthynas â'r Cynllun presennol, gyda'r Aelodau'n nodi ei bwysigrwydd i gefnogi aelwydydd incwm isel.

**Canlyniad** – Casglwyd adborth manwl y Cydbwyllgor a’i gyflwyno i gyfarfod y Cabinet ar 2 Chwefror 2026 at ddiben bod yn rhan o drafodaeth y Cabinet i gytuno ar strategaeth gyllideb refeniw derfynol i'w hargymell i'r Cyngor.

**IECHYD A DIOGELWCH**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol adroddiad i'r Cydbwyllgor a oedd yn rhoi crynodeb o ystadegau digwyddiadau/damweiniau gweithwyr ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/2025. Mae'r wybodaeth ystadegol yma am gyflawniad yn rhoi trosolwg i Uwch Reolwyr y Cyngor o ddigwyddiadau/damweiniau gweithwyr. Atgoffwyd y Cydbwyllgor fod Carfan Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cyngor yn parhau i gyfarfod yn chwarterol â phartneriaid o'r Undebau Llafur i drafod materion lleol/strategol.

Mae crynodeb o'r ystadegau allweddol wedi'i chynnwys isod, ynghyd â ffigurau'r flwyddyn flaenorol lle bo'n berthnasol er mwyn galluogi cymhariaeth. Dylid nodi bod digwyddiadau/damweiniau sy'n cynnwys staff yr asiantaeth a'r rhai sy'n ymwneud ag aelodau’r cyhoedd yn cael eu cofnodi ar wahân ac ni chawsant eu cynnwys yn y ffigurau canlynol.

- Cyfanswm y digwyddiadau/damweiniau a oedd yn ymwneud â gweithwyr a adroddwyd oedd **361,** sy'n gynnydd o'r ffigur yn 2023/2024, sef **296.** Gellir priodoli'r cynnydd yn y ffigurau i nifer o ffactorau, gan gynnwys ymwybyddiaeth gynyddol o sut i roi gwybod am ddamweiniau a digwyddiadau mewn lleoliadau addysgol.

- Trais corfforol oedd prif achos digwyddiadau/damweiniau yn 2024/2025, ac roedd hyn yn gyfrifol am **193** (53%) o'r cyfanswm. Roedd hwn yn gynnydd o'r **112** o ddigwyddiadau/damweiniau trais corfforol a gofnodwyd yn 2023/2024.

- Roedd **129** o'r digwyddiadau/damweiniau trais corfforol tuag at weithwyr wedi digwydd yn y sector Addysg yn 2024/2025. Mae hyn yn efelychu'r cynnydd mewn digwyddiadau corfforol ac anghorfforol a gofnodwyd yn lleol ac yn genedlaethol ar draws y sector Addysg. Mae Trais yn y Gwaith yn parhau i fod yn broblem i arweinwyr ysgolion ac mae wedi cael ei nodi a'i amlygu trwy ein trafodaethau parhaus gyda'n partneriaid yn yr Undebau Llafur dros y 12 mis diwethaf. Ymddengys bod trais yn y gwaith mewn lleoliadau Addysg yn broblem ledled Cymru ac mae wedi derbyn sylw yn y wasg yn dilyn digwyddiadau neu weithredu diwydiannol.

- Adroddwyd am **64** o ddigwyddiadau/damweiniau trais corfforol yng Nghyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant yn 2024/2025, sef prif achos digwyddiadau/damweiniau o fewn y grŵp yn gyffredinol, yn seiliedig ar adroddiadau ystadegol blynyddoedd blaenorol.

- Ail brif achos digwyddiadau/damweiniau oedd llithro/baglu a chwympo o'r un lefel, gan gyfrif am 41 o'r 361 a adroddwyd.

  - Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR). O dan y rheoliadau hyn, rhaid rhoi gwybod am ddigwyddiadau/damweiniau sy'n gysylltiedig â gwaith i'r awdurdod gorfodi perthnasol - yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Cyfanswm nifer y damweiniau adroddadwy gan weithwyr yn ôl RIDDOR oedd **32** ar gyfer 2024/2025, sy'n ffigur tebyg i'r flwyddyn flaenorol. Mae'r digwyddiadau/damweiniau hyn fel arfer wedi'u hadrodd o dan y ddau gategori canlynol:

    i. **13** – Anafiadau penodol (e.e. toriadau, dadleoli)
    ii. **19** – Anafiadau dros 7 diwrnod (Methu â chyflawni gwaith arferol am dros 7 diwrnod o ganlyniad i anaf).

  - **Diwrnodau a Gollwyd** *(mae gwybodaeth am ddiwrnodau a gollwyd gan weithwyr wedi'i chasglu o'r system itrent).*

i. Cyfanswm y 'diwrnodau a gollwyd' gan weithwyr o ganlyniad i ddigwyddiad/damwain yn y gwaith oedd **1709** yn 2024/2025. Roedd hwn yn uwch na'r **1396** a gollwyd yn 2023/2024.

**ii.** 'Llithriadau, baglu ar yr un lefel' oedd prif achos *diwrnodau gwaith a gollwyd*, ac mae'r rhain yn cyfrif am **716** (42%) o'r diwrnodau a gollwyd, sy'n debyg i'r flwyddyn flaenorol pan oedd 41% o'r diwrnodau a gollwyd o ganlyniad i 'Lithriadau a bagliadau'.

**iii.** Roedd **198** o gyfanswm y diwrnodau a gollwyd yn 2024/2025 wedi'u priodoli i 'Gwympiadau o uchder'; sef yr achos mwyaf cyffredin o ddamweiniau angheuol yn y gweithle yn y DU (Ystadegau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 24/25).

Er bod trais corfforol yn cyfrif am 193 (53%) o'r digwyddiadau/damweiniau a gofnodwyd yn 2024/2025, dim ond 241 o gyfanswm y diwrnodau a gollwyd (14%) oedd hyn yn gyfrifol amdanynt.

Roedd modd i'r Cadeirydd fanylu ymhellach ar y wybodaeth a ddarparwyd i'r Cydbwyllgor drwy roi gwybod am gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr i adolygu gwybodaeth ac ystadegau yn ystod cyfarfodydd un i un a gafodd eu hamserlennu, yn ogystal â rhoi sylwadau ar y cyfarfodydd chwarterol a gynhaliwyd gyda'n cydweithwyr o'r Undebau Llafur a Swyddogion y Cyngor.

Gwnaeth Aelod sylwadau am gefnogaeth y Garfan Iechyd a Diogelwch a'u hymatebion prydlon i ddigwyddiadau, gan ddatgan bod swyddogion yn gweithredu ar unwaith pan fydd pryder yn codi.

Trafododd yr Aelodau'r cynnydd mewn trais yn y gwaith a nodwyd, er bod trais corfforol yn brin, fod ymddygiad geiriol a heriol wedi'u nodi yn bryderon, yn enwedig mewn ysgolion. Roedd yr Aelodau'n cydnabod gwerth adrodd cywir i roi darlun cliriach o'r pwysau y mae staff yn eu hwynebu.

Codwyd pryderon hefyd ynghylch y cynnydd mewn absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod y dull codio salwch yn cael ei adolygu'n rheolaidd, a bod y Cyngor yn parhau i atgyfnerthu ei fentrau lles a'i gefnogaeth i staff.

Tynnodd Aelod arall sylw at waith parhaus mewn awdurdod lleol arall i fireinio camau adrodd ar ddigwyddiadau mewn ysgolion, a chynigiodd rannu arfer gorau. Croesawodd y Cyfarwyddwr hyn, gan nodi y gallai mwy o ddata arwain at risg o ran adnabod unigolion, ond ymrwymodd i ystyried y gwelliannau posibl.

**Canlyniad** – Llwyddodd y Cydbwyllgor i ennill dealltwriaeth bellach o'r data am Iechyd a Diogelwch a ddefnyddir gan Uwch Reolwyr i lywio prosesau a chynlluniau gweithredu rheoli risg yn strategol ac o fewn meysydd gwasanaeth, gan nodi tueddiadau, patrymau a phrif achosion, targedu materion a dyrannu adnoddau.

## STRWYTHUR RHEOLWYR Y CYNGOR

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol fanylion y siart strwythur rheoli newydd yn dilyn newidiadau diweddar a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Hydref 2025. Atgoffwyd yr Aelodau o'r broses mewn perthynas â phenodiadau newydd a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ag Undebau Llafur yn rhan o'r broses yma.

Esboniodd y Cyfarwyddwr fod y strwythur newydd ar gyfer yr Uwch Reolwyr wedi dod i rym o 1 Tachwedd ac wedi'i atodi i'r adroddiad er gwybodaeth i'r Aelodau.

Nododd y Cadeirydd, sydd hefyd yn Cadeirio'r Panel Penodiadau, fod pob penodiad wedi'i gytuno'n unfrydol a chanmolodd ansawdd y swyddogion o fewn yr awdurdod.

**Canlyniad** – Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cydbwyllgor mewn perthynas â newidiadau i Uwch Reolwyr y Cyngor.

## ASESIAD CYFLAWNIAD Y PANEL ADOLYGU GAN GYMHEIRIAID

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd, y Gymraeg a Chyfathrebu, ddiweddariad llafar i'r Aelodau ar yr Asesiad Cyflawniad Panel a gynhaliwyd gan y Cyngor ar ddechrau mis Hydref 2025 a diolchodd unwaith eto i gydweithwyr o'r Undebau Llafur am gefnogi'r broses.

Atgoffwyd yr Aelodau fod yr ymarfer arolygu wedi'i gynnal gydag ystod eang o ddulliau ymgysylltu a oedd yn cynnwys staff, Aelodau, sefydliadau allanol ac undebau llafur.

Tynnwyd sylw at y pwyntiau allweddol canlynol yn ystod y cyfarfod:

- Roedd y Panel yn gefnogol iawn o'r Cyngor o ran ei drefniadau llywodraethu, ei ddefnydd o adnoddau ac arweinyddiaeth sefydliadol.
- Tynnodd y Panel sylw at aeddfedrwydd arweinyddiaeth wleidyddol ac arweinyddiaeth swyddogion, ati i gydnabod diwylliant sefydledig o gydweithio ar draws y Cyngor. Canfu hefyd fod fframweithiau cynllunio ac ariannol y Cyngor yn gadarn a chanmolodd y Panel ddulliau a strategaeth fuddsoddi hirdymor y Cyngor.
- Rhoddodd yr asesiad glod i ymrwymiad y Cyngor i'w weithlu, gan nodi'r ffocws ar ddatblygu staff mewnol, cefnogi gallu arweinyddiaeth a'i bwyslais cryf ar gydraddoldeb a chynhwysiant.
- Ystyriodd y Panel hefyd waith y Cyngor ar gydnerthedd a grymuso yn y gymuned, er bod y gwaith hwn yn dal i gael ei ddatblygu, roedd yr adborth yn adeiladol.
- Anogodd y Panel y Cyngor i barhau i gryfhau ei ddull o gynnwys y gymuned, i adeiladu'r isadeiledd ddigidol a'r gweithlu, ac i brofi modelau newydd yn drylwyr cyn eu rhoi ar waith ym mhob rhan o'r Cyngor.
- Gwnaed tri argymhelliad a oedd yn canolbwyntio ar wella parodrwydd ar gyfer cam nesaf y rhaglen ac roedd y rhain yn gyson â blaenoriaethau mewnol presennol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bydd yr adroddiad llawn yn cael ei darfod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Ionawr. Croesawodd y Cadeirydd y canlyniad cadarnhaol a nododd gydnabyddiaeth y Panel o ymgysylltiad cryf y Cyngor â'r sector gwirfoddol a'r berthynas waith ag Undebau Llafur.

**Canlyniad:** Cafodd y Cydbwyllgor wybod am ganfyddiadau diweddar y Panel Adolygu gan Gymheiriaid yn dilyn asesiad y Cyngor ym mis Hydref 2025.

## YMGYSYLLTU Â CHRAFFU

Atgoffwyd y Cydbwyllgor am y cyfleoedd i gymryd rhan yn swyddogaeth graffu'r Cyngor a thynnwyd sylw at yr adolygiad diweddar o'r cyfleuster Prydau yn y Gymuned yn dilyn cais gan Aelodau'r Undebau Llafur mewn cyfarfod blaenorol. Trafododd y Cydbwyllgor sut y gallai cyfranogiad Undebau Llafur helpu i barhau i nodi meysydd lle gallai craffu gefnogi gwelliant neu fynd i'r afael â blaenoriaethau'r gweithlu.

Cododd Aelod bryderon ynghylch pwysau recriwtio a chadw staff mewn meysydd gwasanaeth allweddol, gan gynnwys gofal cymdeithasol ac arlwyo mewn ysgolion, a dywedwyd wrth yr Aelodau fod y pwysau hyn eisoes wedi'u cydnabod yn risgiau strategol ac y byddent yn destun gwaith craffu pellach, gyda'r canlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor.

**Canlyniad** – Ymgysylltiad ac ymwneud parhaus ag Undebau Llafur yn swyddogaeth Graffu'r Cyngor, gan ddangos sut y mae ceisiadau gan Undebau Llafur wedi cael eu datblygu yn y gorffennol.

***3 Chwefror 2026***

## YMGYNGHORI AR GYLLIDEB 2026/2027 (CAM 2)

Rhoddodd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Ariannol a Materion Trawsnewid, wybodaeth allweddol i'r Aelodau, drwy gyflwyniad PowerPoint, am ail gam proses ymgynghori ar gyllideb y Cyngor, gan gwmpasu'r meysydd canlynol:

Gwnaeth y Cadeirydd sylwadau ar adborth a dderbyniwyd gan ymgyngoreion yn rhan o'r cam cyntaf o'r broses ymgynghori ar y gyllideb, a nododd fod 82% o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylid parhau i wneud gwasanaethau cymdeithasol yn flaenoriaeth uchel ar gyfer buddsoddi, sef barn a gefnogir gan y Cabinet. Nododd y Cadeirydd hefyd fod cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn barhaus yn dod yn fwyfwy anodd bob blwyddyn.

O ran arbedion effeithlonrwydd, rhoddodd Aelod adborth mai dim ond hyn-a-hyn o arbedion effeithlonrwydd y mae modd eu rhoi ar waith cyn iddyn nhw ddechrau effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau, a nododd fod yn rhaid i ddiogelu staff a gwasanaethau barhau i fod yn flaenoriaeth.

Yn rhan o'r diweddariad, gofynnwyd i'r Cydbwyllgor roi adborth a sylwadau ar Strategaeth Cyllideb Refeniw arfaethedig y Cabinet ar gyfer 2026/27.

**Treth y Cyngor**

Ar y cyfan, roedd Aelodau'r Cydbwyllgor o'r farn bod y Cynnydd arfaethedig o 4.00% yn Nhreth y Cyngor (ac eithrio praeseptau'r Cyngor Cymuned a'r Heddlu) yn rhesymol, gan ystyried y bwlch cyllidebol o £6.4 miliwn, ac mae'n debygol o fod ymhlith y cynnydd isaf ledled Cymru.

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ar bwysigrwydd pennu Treth y Cyngor ar lefel a fyddai'n cefnogi cynnal gwasanaethau a swyddi'r Cyngor, a chydnabuwyd pwysigrwydd sicrhau fforddiadwyedd i drigolion, gan y gallai cynnydd uwch arwain at rwystredigaeth a negyddiaeth. Gwnaeth yr Aelodau sylwadau hefyd am bwysigrwydd cyfleu'r safbwynt y cytunwyd arno yn glir gyda'r cyhoedd yn ehangach.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at yr heriau wrth bennu lefel Treth y Cyngor, gan sicrhau ei bod hi'n rhesymol i drigolion ac ar yr un pryd yn cefnogi'r nifer o wasanaethau Cyngor sy'n diwallu anghenion trigolion ledled Rhondda Cynon Taf. Tynnodd y Cadeirydd sylw hefyd at y dull rhagweithiol a llwyddiannus a roddwyd ar waith gan Arweinydd y Cyngor dros nifer o flynyddoedd, sydd wedi cefnogi cadw lefelau Treth y Cyngor mor isel â phosibl.

**Cyllideb Ysgolion**

Nododd yr Aelodau'r manteision a oedd yn gysylltiedig â'r cynnig i ddyrannu cyllid ychwanegol i gwmpasu, yn llawn, yr holl bwysau mewn ysgolion o ran diogelu swyddi a gallu cynnal y gwasanaethau ysgol a ddarperir i'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed. Nododd un Aelod ddull y Cyngor o flaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion ac addysg ar adeg pan fo angen cyllid a buddsoddiad ar gyfer staff addysgu a staff cymorth er mwyn helpu i leddfu'r pwysau y mae staff yn eu profi ar hyn o bryd, er enghraifft, oherwydd meintiau dosbarth cynyddol.

Croesawodd yr Aelodau'r £1 miliwn ychwanegol i wella capasiti ar draws anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a darpariaeth ysgolion arbennig. Roedd hyn yn 'fuddsoddiad sylweddol' yn eu barn nhw. O ran ADY, gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a yw'r cynnydd cyffredinol mewn cyllid ar gyfer ysgolion yn cynnwys yr adnoddau ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cydlynwyr ADY.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol a Materion Trawsnewid fod y cyllid ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn y setliad llywodraeth leol terfynol yn rhan o'r cynnydd cyffredinol mewn cyllid ar gyfer ysgolion, sy'n cyfateb i £323,000 ar gyfer Rhondda Cynon Taf ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27. Mae'r swm yma wedi'i glustnodi ar gyfer ysgolion.

**Arbedion Effeithlonrwydd**

Rhoddodd yr Aelodau adborth ar y dull y mae'r Cyngor yn mynd ar drywydd yr arbedion effeithlonrwydd a nodwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf, gydag un Aelod yn pwysleisio pwysigrwydd ystyried pob cynnig effeithlonrwydd yn fanwl er mwyn deall yr effaith. Rhoddodd Aelod arall adborth, gan nodi bod cyfleoedd i gyflawni effeithlonrwydd pellach yn dod yn fwyfwy anodd i'w cyflawni heb effeithio ar swyddi.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Raglenni Prentisiaeth a Graddedigion llwyddiannus y Cyngor, sy'n rhoi'r cyfle i'r Cyngor feithrin ei dalent ei hun, a phwysleisiodd fod y Cyngor yn cydnabod mai ei staff yw ei ased gorau. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at gyflawni mesurau lleihau cyllideb heb unrhyw effaith andwyol ar wasanaethau rheng flaen a chydnabu eu bod yn dod yn fwyfwy anodd eu cyflawni. Adleisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Amgylcheddol y farn bod staff y Cyngor wedi bod yn rhagweithiol ac yn y sefyllfa orau i nodi arbedion effeithlonrwydd o fewn eu meysydd gwasanaeth eu hunain, fel y fenter 'Dysgu Nofio' a chyfleoedd cysylltiedig i gynhyrchu incwm, gan ychwanegu bod cydweithio da yn bodoli rhwng staff, rheolwyr a'r Adain Weithredol.

Diolchodd yr Aelod i'r Cadeirydd a'r Aelod o'r Cabinet am eu sylwadau ynghylch gwerthfawrogi staff, gan eu bod yn aml yn teimlo nad ydynt yn cael eu clywed. Ychwanegodd fod ymrwymiad clir wedi bod yn hyn o beth o dan y Weinyddiaeth bresennol.

Gwnaeth Aelod arall sylwadau ar ymarferoldeb cyflawni'r mesurau effeithlonrwydd arfaethedig a gofynnodd sut y bydd y broses yma'n cael ei chynnal. Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol a Materion Trawsnewid drosolwg o'r rhaglen waith barhaus sydd ar waith, a oedd yn cynnwys asesiad o gyfleoedd arbed a threfniadau adolygu gan Uwch Reolwyr y Cyngor, a nododd enghreifftiau o'r arbedion arfaethedig i roi sicrwydd i'r Cydbwyllgor y gellir lliniaru effeithiau andwyol ar ddarpariaeth gwasanaethau rheng flaen.

**Ffioedd a thaliadau**

Yn rhan o waith ystyried y newidiadau arfaethedig i ffioedd a thaliadau a fydd yn codi £412,000 o incwm ychwanegol mewn blwyddyn lawn, hysbyswyd yr Aelodau fod cynnig amgen gan y Grŵp Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Mwyafrif wedi'i dderbyn mewn perthynas â thaliadau parcio ceir, a bod y manylion hyn wedi'u cynnwys yn rhan o'r broses ymgynghori.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y cynnydd arfaethedig yn benodol mewn perthynas â Phrydau ar Glud a gwasanaethau gofal dibreswyl, gan nodi pryderon cyffredinol ynghylch gofal cymdeithasol i oedolion yn genedlaethol ledled Cymru, a hefyd ynghylch lleihau nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth Prydau ar Glud yn

Rhondda Cynon Taf. Tynnodd yr Aelodau sylw hefyd at yr angen i gydbwyso'n ofalus rhwng cynhyrchu incwm ychwanegol a pheidio â chael effaith andwyol ar wasanaethau, gan gyfeirio at ddarpariaeth Hamdden am Oes y Cyngor a'r potensial i'r Cyngor brisio ei hun allan o'r farchnad, gan y gallai cwsmeriaid edrych i symud i ddarparwyr eraill.

Gwnaeth un Aelod sylwadau ar y cynnydd o 40c yn y ffi parcio ceir (ar gyfer y ddarpariaeth arhosiad hir) sy'n cyfateb i gynnydd o 25% a chyfeiriodd at staff sy'n weithwyr hyblyg ac sy'n methu â manteisio i'r eithaf ar dalu am drwydded barcio fisol oherwydd eu trefniadau gwaith. Aeth yr Aelod ymlaen i dynnu sylw at y ffaith, mewn achosion o'r fath, bod aelod o staff yn talu drwy ddebyd uniongyrchol, ac y bydd hyn yn cyfateb i £23 y mis, nad yw'n gost-effeithiol. Pwysleisiodd Aelod hefyd yr effaith y gallai ffioedd parcio ceir ei chael ar nifer yr ymwelwyr yng nghanol trefi ac awgrymodd rewi ffioedd parcio ceir am flwyddyn er budd staff sy'n gweithio yng nghanol trefi.

Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Amgylcheddol adborth bod niferoedd aelodaeth Hamdden am Oes ar un o'u lefelau uchaf, sef dros 11,000 o aelodau, gan nodi'r ystod eang o ddarpariaeth o safon sydd ar gael, argaeledd staff profiadol a thryloywder llwyr o ran y ffioedd sydd ar waith.

Nododd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Ariannol a Materion Trawsnewid y pwyntiau a godwyd ac eglurodd, o ran ffioedd gofal dibreswyl, eu bod yn destun asesiad ariannol sy'n seiliedig ar brawf modd i benderfynu a oes gan ddefnyddwyr gwasanaeth y modd ariannol i gyfrannu at gost eu gofal ac, os felly, lefel y cyfraniad. Nododd hefyd mai'r uchafswm tâl cyfredol yr wythnos yw £100, fel y'i gosodwyd gan Lywodraeth Cymru. O ran y Gwasanaeth Prydau ar Glud, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at yr angen i brisiau gyfrannu at dalu costau bwyd cynyddol er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth gwerthfawr yn cael ei ddarparu a nododd y byddai pris arfaethedig y pryd bwyd yn Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2026/27 yn parhau i fod yn is na'r pris mewn awdurdodau lleol cyfagos.

**Cynllun Lleihau Ardrethi Busnes Lleol**

Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw adborth penodol i'w gyfleu ynghylch y lefel gynyddol arfaethedig o gymorth ariannol i fusnesau cymwys ar gyfer 2026/27 trwy Gynllun Gostwng Ardrethi Busnes Lleol y Cyngor a chroesawon nhw'r gefnogaeth i fusnesau lleol.

**Cronfeydd Wrth Gefn**

Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw bryderon am ddefnyddio Cyllid Pontio i ariannu'r bwlch cyllidebol sy'n weddill.

**Canlyniad -** *Trafodaethau manwl a herio Strategaeth Gyllideb Refeniw ddrafft arfaethedig y Cabinet ar gyfer yn rhan o ail gam yr Ymgynghoriad ar Gyllideb y Cyngor.*

## STRWYTHUR RHEOLWYR Y CYNGOR

Rhoddodd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ddiweddariad pellach i'r Cydbwyllgor ar strwythur yr Uwch Reolwyr yn dilyn y broses benodi ar gyfer rôl Cyfarwyddwr Addysg a Chynhwysiant, yn dilyn ymddeoliad deiliad y swydd, Gaynor Davies, ym mis Rhagfyr 2025.

**Canlyniad** – Cafodd Aelodau'r Cydbwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y diweddariadau pwysig i Strwythur yr Uwch Reolwyr yn dilyn cadarnhau'r penodiad yn y Cyngor yr wythnos flaenorol.

## ADRODDIAD TERFYNOL YR ASESIAD CYFLAWNIAD Y PANEL AC YMATEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cydbwyllgor a oedd yn rhoi copi iddo o Adroddiad Terfynol Asesiad Cyflawniad y Panel ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r meysydd i'w gwella / argymhellion a wnaed gan y Panel, yn dilyn ystyriaeth gan y Cyngor Llawn ar 28 Ionawr 2026.

Yn y cyfarfod, crynhodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth gasgliadau'r Panel, yn dilyn Asesiad Cyflawniad y Panel (PPA) a gynhaliwyd rhwng 7 a 10 Hydref 2025, a ddaeth i'r casgliad bod y Cyngor '*yn Gyngor da, sy'n cael ei redeg yn dda ac yn uchelgeisiol, sy'n canolbwyntio ar wella bywydau ei ddinasyddion.*

Cynghorwyd yr Aelodau fod y casgliadau'n cynrychioli neges gref o gymeradwyaeth, *'Dangosodd y Cyngor fod ganddo hanes cryf o gyflawni, wedi'i ategu gan ethos o welliant parhaus. Mae'r Cyngor yn gweithio i ddeall effaith a deilliannau ei waith yn well, gan symud o ddull sy'n canolbwyntio ar y gwasanaeth i un sy'n canolbwyntio ar y person, a fydd yn helpu i gyflawni'i uchelgais o feithrin cydnerthedd mewn cymunedau'.*

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y Panel yn cydnabod bod swyddogaethau cynllunio a rheoli ariannol corfforaethol cryf eisoes ar waith, yn ogystal â nodi bod y Cyngor yn buddsoddi yn ei staff ac yn cael ei werthfawrogi gan ei bartneriaid a'i randdeiliaid. Dywedodd fod y Panel yn cydnabod yr heriau sydd o'n blaenau, wrth i'r Cyngor gymryd y camau nesaf i gyflawni uchelgeisiau ei Gynllun Corfforaethol ond canmolodd ef am eu hadnabod yn gynnar ac ymateb i bwysau cyllidebol. Nododd y Panel fod Ysgolion wedi cael blaenoriaeth, gyda chyllid llawn ar gyfer pwysau a nodwyd, gydag £1 biliwn wedi'i fuddsoddi ar draws pob ysgol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y gymeradwyaeth o ran '*swyddogaethau craffu a sicrwydd sydd wedi'u cefnogi'n dda' y Cyngor,* a'r sylw bod *'craffu'n cael ei gymryd o ddifrif a bod cydbwysedd priodol rhwng craffu cyn ac ar ôl penderfyniadau, gyda rhywfaint o waith i gefnogi datblygiad polisïau hefyd yn cael ei wneud'.* Cafwyd adborth cadarnhaol hefyd mewn perthynas â buddsoddiad y Cyngor yn ei swyddogaethau caffael, gan sicrhau bod y Cyngor yn buddsoddi'n lleol i gefnogi'r economi leol lle bo modd gwneud hynny, a sut mae'r Cyngor yn ymgorffori'r

ystyriaethau allweddol yma o ran gwerth cymdeithasol ochr yn ochr â rhai o'r blaenoriaethau sero net.

O ran meysydd i'w gwella, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cydbwyllgor at yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad, a oedd yn nodi'r cyfleoedd gwella i'r Cyngor, gan gynnwys parhau i ddangos effaith a chanlyniadau i'w gymunedau a chyfleu hynny'n effeithiol. Yn ogystal â hynny, mae datblygu cydnerthedd y gymuned yn bwysig o ran cyllido'r sector cyhoeddus a sicrhau bod y Cyngor yn addasu ei wasanaethau ar gyfer y dyfodol. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y PPA wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn enwedig ei swyddogaethau cyflawniad, ac mae ymateb y Cyngor i'r argymhellion wedi'u nodi yn yr atodiadau sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.

Gwnaeth y Cadeirydd sylwadau ar yr adborth cadarnhaol cyffredinol a ddeilliodd o'r asesiad a'r profiad goleuedig o fod wedi bod yn rhan o'r broses. Ychwanegodd y Cadeirydd fod yr adroddiad canlyniadol yn dangos bod y Cyngor yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'i gydweithwyr yn yr Undebau Llafur, a bod yna hefyd ddull cydweithio da rhwng yr Aelodau, y Cabinet ac Uwch Swyddogion. Myfyriodd y Cadeirydd ar ymateb y Panel i'r Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion a'r Rhaglen Gyfalaf, ac mae'r rhain i'w cymeradwyo. Cytunodd Aelodau'r Cydbwyllgor a gwnaethant sylwadau ar Asesiad Cyflawniad cadarnhaol y Panel o'r Cyngor.

**Canlyniad –** Ymgysylltu ag Undebau Llafur o fewn Asesiad y Panel a'r adroddiad canlyniad cadarnhaol sy'n deillio o hynny, gan gydnabod y berthynas waith gadarnhaol rhwng y Cyngor a'r Undebau Llafur.

**RHAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith i'r Cydbwyllgor at ddibenion rhoi sylwadau a'u cymeradwyo, ar y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cydbwyllgor eu hystyried ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Yn y cyfarfod, eglurodd y Swyddogion, mewn perthynas ag Arferion Cyflogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, fel y'u nodir yn y Rhaglen Waith, fod trafodaeth wedi'i chynnal ar y Bil Hawliau Gweithwyr newydd yng nghyfarfod diweddar y Cyngor, gan arwain at gais i gyflwyno adroddiad ar y cyfle nesaf sydd ar gael, i nodi goblygiadau'r Bil a'r amserlenni o ran ei gyflawni.

Croesawodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth awgrymiadau ac adborth gan Aelodau ar unrhyw eitemau ychwanegol i'w cynnwys yn y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol. Cydnabu'r cais gan Mr C Jones, GMB, am eitem ychwanegol mewn perthynas â'r Siarter, yn benodol bod y Cydbwyllgor yn edrych i ymgysylltu â'r Cydbwyllgorau Ymgynghori lleol eraill mewn perthynas â rhannu enghreifftiau o arfer da.

**Canlyniad** – Drafftio rhaglen waith i ganiatáu i bob Aelod gyflwyno eitemau i'r Cydbwyllgor eu hystyried, i ddangos nad yw'r Cydbwyllgor yn cael ei arwain gan y Cyngor, ond yn gyfraniad cyfartal gan bawb.

***MATER BRYS***

I gloi, ac oherwydd mai dyma oedd y cyfarfod olaf o'r Cydbwyllgor Ymgynghori y byddai Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A. Morgan OBE, yn ei fynychu cyn rhoi'r gorau i'w rôl, roedd y Cadeirydd yn dymuno cofnodi ei diolch diffuant iddo am ei gyfraniad sylweddol fel Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf ac fel Arweinydd CLILC. Fel Cadeirydd, roedd hi'n siŵr y byddai Aelodau'r Cydbwyllgor yn hoffi ymuno â hi i estyn eu diolch i'r Arweinydd am ei gyfraniad a'i ymrwymiad dros nifer o flynyddoedd i lywodraeth leol.

## CYFARFODYDD CHWARTEROL GYDA'R ARWEINYDD A DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR.

Er mwyn cefnogi ymhellach ofynion statudol y Cyngor fel y'u nodir yn y Ddeddf, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng Arweinyddiaeth Wleidyddol y Cyngor, uwch swyddogion a chynrychiolwyr Undebau Llafur yr Awdurdod Lleol.

Mae'r cyfarfodydd yma wedi bod yn cael eu cynnull cyn cyflwyno'r Ddeddf na gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r cyfarfodydd hyn yn ceisio rhoi cyfle cynnar i bartneriaid o'r undebau llafur lywio ystyriaethau o gynigion polisi allweddol a chynrychioli buddiannau posibl aelodau'r undebau llafur.

Roedd eitemau agenda ychwanegol a drafodwyd yn ystod y cyfarfodydd yn cynnwys y canlynol, ond nid oeddent yn gyfyngedig i hynny:

Ymgynghori ar y Gyllideb

Newidiadau i Gyllid Grant Llywodraeth Cymru

## EDRYCH I'R DYFODOL

Wrth i ni edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf, mae'r Cydbwyllgor Ymgynghori yn parhau i fod wedi ymrwymo i gryfhau ei bartneriaeth a sicrhau bod arferion cyflogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn parhau i adlewyrchu'r Ddeddf Hawliau Cyflogaeth ar bapur ac o ddydd i ddydd. Mae ein gwaith wedi dangos gwerth deialog agored, parch a pharodrwydd i gydweithio er mwyn creu amgylchedd gwaith teg, cefnogol a blaengar.

Byddwn ni'n parhau i ganolbwyntio ar ymgorffori trefniadau cytundebol teg a thryloyw, gan sicrhau bod gan bob gweithiwr eglurder, diogelwch a hyder o ran y telerau y maent yn gweithio oddi tanynt. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn adeiladu ar ein cynnydd o ran ehangu cyfleoedd gweithio hyblyg—gan gydnabod anghenion amrywiol ein gweithlu a'r effaith gadarnhaol y mae arferion gwaith modern, addasadwy yn ei chael ar les, cynhyrchiant a chadw staff.

Bydd cydraddoldeb yn parhau i fod wrth wraidd ein hagenda. Drwy gynllunio gweithredu cydraddoldeb parhaus, byddwn yn cydweithio i nodi rhwystrau, herio anghydraddoldebau, a hyrwyddo polisïau cynhwysol sy'n galluogi pob gweithiwr i ffynnu. Mae hyn yn cynnwys cynnal dulliau monitro cadarn, ymgysylltu'n ystyrlon â staff a chynrychiolwyr, a sicrhau bod ein gweithredoedd yn trosi'n newid cadarnhaol, mesuradwy.

Mae'r flwyddyn nesaf yn gyfle i ni gydweithio ar lefel uwch, mireinio ein blaenoriaethau cyffredin, a pharhau i lunio cyflogaeth sy'n deg, yn gyfartal, ac yn adlewyrchu'r gwerthoedd rydyn ni'n eu cynnal ar y cyd. Bydd ymrwymiad y Cydbwyllgor i bartneriaeth adeiladol yn parhau i fod yn ganolog i'r gwaith yma, ac edrychwn ymlaen at adeiladu ar y sylfeini cryf rydyn ni wedi'u sefydlu gyda'n gilydd.

***